

Sul Heddwch

Beth pe bai'r mamau yn gweld
Eu bechgyn ar faes y gad!
Byth! byth ni sonient am farw'n ddewr
Dros frenin, a gorsedd a gwlad.
T. E. Nicholas

EMYNAU

Dy ewyllys di, O Dduw, ydi fod pawb yn byw mewn tangnefedd a hedd:

Duw a Thad yr holl genhedloedd,
O sancteiddier d'enw mawr,
dy ewyllys di a wneler
gan dylwythau daear lawr;
doed dy deyrnas
mewn cyfiawnder ac mewn hedd.
D. Tecwyn Evans (*Caneuon Ffydd*: 825)

Gweddiwn ar i dy gariad di fod yn falm i glwyfau'n hoes:

O Dywysog ein tangnefedd,
cyfaill mwya'r ddaear hon,
gwna elynion yn gyfeillion
heb un brad i boeni bron;
gwrando gri ein henaid ni
am yr hedd sydd ynot ti.
Roger Jones (*Caneuon Ffydd*: 865)

Defnyddia fi, O Dduw, i fod yn offeryn dy hedd ac yn gyfannwr rhaniadau:

Iôr, gwna fi'n offeryn dy hedd,
lle bo casineb dof â'th gariad di,
a lle bo dagrau gad im ddod â gwên,
cyfannu'r holl raniadau boed i mi.

Gweddi a briodolir i Ffransis o Assisi
addas. Sebastian Temple *cyf*. Siân Rhiannon (*Caneuon Ffydd*: 868)

Man cychwyn pob heddwch yw y galon unigol:

Heddwch ar ddaear lawr, gan ddechrau'n fy nghalon i,
heddwch ar ddaear lawr, yr hedd a fwriadwyd i ni;
a Duw'n Dad trugarog, brodyr oll ym ni,
cerddwn oll gyda'n gilydd, mewn hedd a harmoni.

Seymour Miller a Jill Jackson *cyf*. Harri Williams (*Caneuon Ffydd*: 867)

Mae'r ysfa i glodfori a dyrchafu rhyfel yn dal yn y tir. Rho ysbryd cymod yn ein bywydau:

Drugarog Dduw, gerbron dy orsedd di
mewn edifeirwech cyd-ddyrchafwn gri,
gan addef inni'n fynych roddi bri
ar arfau cad.

T. Elfyn Jones (*Caneuon Ffydd*: 861)

Boed i dy gariad di ein clymu â holl bobl y byd:

Dyro dy gariad i'n clymu,
dy gariad fyddo'n ein plith;
dyro dy gariad i Gymru,
bendithion gwasgar fel gwllith:
dysg inni ddeall o'r newydd
holl ystyr cariad at frawd;
dyro dy gariad i'n clymu,
dy gariad di.

1 Dave Bilbrough *cyf*. Catrin Alun 2, 3 Siôn Aled (*Caneuon Ffydd*: 871)

GWEDDIAU**Cam cyntaf creu heddwch a thangnefedd yw ein hymateb i'n cymydog:**

Sylweddolwn, O! Dduw ein Tad, bod casineb, cenfigen, rhyfela ac anghyfiawnder yn hollol groes i'th ysbryd di. Ni allwn ond cydnabod ger dy fron fod y byd a'r hyn sy'n digwydd heddiw yn pwyso'n drwm ar ein meddyliau a'n calonnau. Mae'r byd yr ydym yn byw ynddo'n ymffrostio cymaint mewn nerth, gallu a grym.

Gwyddom hefyd mai ti yw ffynhonnell a sylfaen pob gwir heddwch a thangnefedd. Dangos inni nad oes diben o gwbl inni sôn am ffordd heddwch a thangnefedd os nad ydym yn byw mewn cymod â'n cymydog. Cofiwn mai dy ewyllys di yw ar inni fyw mewn heddwch â'n gilydd. Amen.

Eifion Jones

Cofiwn am bawb sy'n llafurio'r dyddiau hyn i greu heddwch:

Arwain ddynion, O! Dduw, i anghofio amdanynt eu hunain, ac i feddwl yn gyntaf amdanat ti, ac am eu cyd-ddynion. Arwain hwy i geisio dy arweiniad di ac i fyw fel plant i ti.

Bendithia bawb sy'n gweithio dros heddwch byd, ac sy'n gwneud popeth i gael pobl i barchu dy enw ac i ufuddhau i'th orchmynion. Cydnabyddwn nad yw ein ffordd o fyw fel cenedloedd byd yn deilwng ohonot ti. Amen.

Eifion Jones

Cynorthwya ni i greu cymod a thangnefedd:

Rho gymod a thangnefedd, gwasgara'r rhai mae'n dda ganddynt ryfel, ac arwain ni i wisgo dy arfogaeth di yn erbyn y drwg, 'gwirionedd yn wregys am ein canol, a chyfiawnder yn arfwisg ar ein dwyfron, a pharodrwydd i gyhoeddi efengyl tangnefedd yn esgidiau am ein traed, tarian ein ffydd, iachawdwriaeth yn helm, a'r Ysbryd, sef Gair Duw, yn gleddyf'. Cynorthwya ni, yn dy gariad, i sicrhau cyfiawnder, maddeuant a chymod, fel y daw'r byd i wirionedd, bywyd a heddwch. Amen.

Graham Floyd

Nac anghofiwn am y rhai sy'n gorfod cadw'r heddwch ar hyd a lled y byd:

Gweddiwn ar ran y rhai sydd yn y lluoedd arfog –
 eu dyletswydd yw cadw'r heddwch mewn gwledydd
 ar draws y byd,
 a'u gwaith yn golygu misoedd i ffwrdd oddi wrth eu teuluoedd
 a'u ffrindiau
 a pherygl personol iddynt yn aml.
 Arglwydd, yn dy drugaredd,
 clyw ein gweddi. Amen.

Eirian a Gwilym Dafydd

Bydd yn agos at ein harweinwyr gwladol sy'n gorfod dod i benderfyniadau anodd a chymhleth:

Gweddiwn ar ran arweinwyr byd – y llywodraethwyr, gwleidyddion a diplomyddion –
 y rhai hynny mae eu penderfyniadau a'u trafodaethau yn effeithio ar fywyd cynifer,
 ac yn eu dwylo hwy y gorwedd heddwch yn y pen draw.
 Arglwydd, yn dy drugaredd,
 clyw ein gweddi.
 Arglwydd pawb,
 rho ddoethineb i bawb sy'n gweithio am heddwch,
 fel gellir gwarantu dyfodol sicrach i bawb.
 Rho ddewrder i'r rhai sy'n ymdrechu am gyfiawnder,
 fel gellir goresgyn achosion o wrthdaro.
 Rho nerth i'r rhai sy'n ceisio chwalu muriau,
 fel gellir rhoi terfyn ar ymraniadau oherwydd hil, lliw,
 credo a diwylliant. Amen.

Eirian a Gwilym Dafydd

ADNODAU

Neges o gysur mewn cyfnod anodd ac ansicr a hynny i baratoi ffordd yn yr anialwch:

Cysurwch, cysurwch fy mhobl –
dyna a ddywed eich Duw.

Eseia 40: 1

Os ydym yn caru Duw yna mae'n rhaid i ni gadw ei orchmynion:

“Os ydych yn fy ngharu i, fe gadwch fy ngorchmynion i.”

Ioan 14: 15

Rhodd Duw yw gras sy'n cael ei arllwys arnom i wella'n hunain a'n byd:

Trwy ras yr ydych wedi eich achub, trwy ffydd. Nid eich gwaith chwi yw hyn; rhodd Duw ydyw;

Effesiaid 2: 8

Ai breuddwyd gwrach yw gweledigaeth y proffwyd Eseia?

Barna ef rhwng cenedloedd,
a thorri'r ddadl i bobloedd lawer;
curant eu cleddyfau'n geibiau,
a'u gwaywffyn yn grymanau.
Ni chyfyd cenedl gleddyf yn erbyn cenedl,
ac ni ddysgant ryfel mwyach.

Eseia 2: 4

Dychwelwn at y symbol o heddwch sef y golomen a'r olewydden yn ei phig:

Pan ddychwelodd y golomen ato gyda'r hwyr, yr oedd yn ei phig ddeilen olewydd newydd ei thynnu; a deallodd Noa fod y dyfroedd wedi treio oddi ar y ddaear.

Genesis 8: 11

Dyma gam cyntaf pob cymod a heddwch:

gad dy offrwm yno o flaen yr allor, a dos ymaith; myn gymod yn gyntaf â'th frawd, ac yna tyrd a chyflwyno dy offrwm.

Mathew 5: 24

DYWEDIADAU A THRADDODIADAU

'Uffern! Uffern! Uffern! Y mawr drugarog Dduw, beth yw dyn? Gwae – gwaed – gwallgofrwydd! Lladd-dy ellyllon! Cannoedd lladdedigion yn y cleidir a'r 'lleufer yn eu llygaid'. Cnawd drylliedig, esgeiriau yn ysgyrion. Atal, Dduw, y dwymyn wallgof, atal boeredd y mallgwn!'

Gwaedd y Bechgyn

'Tachwedd 11: O! newyddion gogoneddus! Ai breuddwyd ydyw? Heddwch! Heddwch! Gorohïan a miri mawr yn y dref hon. Daeth y Cymry, megis trwy reddf, ynghyd i'r Orange Hall, a thu allan i honno y buom yn canu emynau ac alawon ein gwlad. Trefnasom gynnal Cymanfa ganu y nos Fercher ddilynol, ac nid wyf yn disgwyl clywed canu tebyg i'r canu hwn yr ochr hon i'r bedd.'

Gwaedd y Bechgyn

'Yn wyneb hyn oll, fechgyn ieuainc, ymfyddinwch, ac na adewch i ryddid eich gwlad, diogelwch eich teuluoedd, a'ch breintiau crefyddol gael eu hysbeilio oddi arnoch. Er ei holl ddiffygion Prydain yw'r lanaf, anrhydeddusaf y mae haul Duw'n tywynnu arni, a byddwch o'r un ysbryd â'r hen ŵr hwnnw o Fôn a ddwedai'r dydd o'r blaen ei fod yn methu cysgu'r nos wrth feddwl am y bechgyn glewion oedd yn y 'trenches' i'w gwneud hi'n bosibl iddo fo gysgu o gwbl.'

Gwaedd y Bechgyn